Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Yr Uned Rheoli Adeiladu, Ty Parcyrhun, Ffordd Y Rhyd, Rhydaman, SA18 3FB
Building Control Team, Ty Parcyrhun, Ffordd Y Rhyd, Ammanford, SA18 3FB
rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk
building.control@carmarthenshire.gov.uk
sirgar.llyw.cymru/rheoliadeiladu carmarthenshire.gov.wales/buildingcontrol



Rheoliadau Adeiladu Cais am Gymeradwyaeth Rheoli Adeiladu gyda Chynlluniau Llawn (Cymru) ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch

Deddf Adeiladu 1984, Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, Rheoliadau Adeiladu 2010, Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

Gweler yr adran Nodiadau am ddolenni defnyddiol

1. Manylion yr ymgeisydd *(Y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cais rheoli adeiladu)*

Enw:	
Cyfeiriad a Chôd post:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	

2. Manylion y cleient *(Deiliad dyletswydd cyfreithiol ar gyfer cydymffurfiaeth - Y person neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu)*

Enw:	
Cyfeiriad a Chôd post:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	

3. Manylion y prif gontractwr / Unig gontractwr *(Y contractwr sy'n rheoli'r cam adeiladu yn gyffredinol)*

Enw:	
Cyfeiriad a Chôd post:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	

4. Manylion y prif ddylunydd / Unig ddylunydd neu ddylunydd arweiniol *(Y sawl sy'n gyfrifol am baratoi'r dyluniad)*

Enw:	
Cyfeiriad a Chôd post:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	

5. Lleoliad a manylion y cais

Cyfeiriad y safle gan gynnwys y côd post (Mae angen cyflwyno cynllun lleoliad gyda'r cais hwn)

Nifer yr ystafelloedd gwely (ar gyfer anheddau newydd yn unig)

Os yw hwn yn gais sy'n cael ei ailgyflwyno, rhowch y cyfeirnod blaenorol

Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio, os yn berthnasol

6. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (fel y'i diwygiwyd)

(Gweler y ddolen yn yr adran Nodiadau)

A yw'r adeilad yn adeilad y mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol iddo neu a fydd yn berthnasol iddo ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu? ◯ Ydy ◯ Nac ydy



7. Adeiladau presennol (rhowch wybodaeth ychwanegol lle bo angen)

Lle bo'n berthnasol, rhowch ddisgrifiad o'r adeilad presennol, gan gynnwys: *(Gweler y ddolen yn yr adran Nodiadau)*

* manylion ynghylch y defnydd presennol a wneir o'r adeilad
* defnydd o bob llawr
* uchder yr adeilad
* nifer y lloriau yn yr adeilad ar ôl y gwaith arfaethedig fel y pennir yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

8. Y gwaith arfaethedig (rhowch wybodaeth ychwanegol lle bo angen)

(Gweler y ddolen yn yr adran Nodiadau)

Rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig

Manylion ychwanegol, dylech gynnwys:
* manylion y defnydd arfaethedig o'r adeilad, gan gynnwys y defnydd arfaethedig o bob llawr
* uchder yr adeilad ar ôl y gwaith arfaethedig
* nifer y lloriau yn yr adeilad ar ôl y gwaith arfaethedig fel y pennir yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023
* y ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar gyfer draenio'r adeilad
* Os yw H4 o Atodlen 1 yn gymwys, manylion y rhagofalon ar gyfer adeiladu dros ddraen, carthffos neu brif bibell waredu
* y camau i'w cymryd i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol

Dull gwaredu dŵr budr

Dull gwaredu dŵr wyneb

Dull cyflenwi dŵr

9. Dechrau (rhowch wybodaeth ychwanegol lle bo angen)

a) Nodwch y dyddiad y disgwylir i'r gwaith gyrraedd y cam y bernir ei fod wedi'i ddechrau o dan Rheoliad 46b

b) Lle nad yw Rheoliad 46b paragraff (2) neu (3) yn gymwys, rhowch fanylion y gwaith y mae'r cleient yn ystyried bod angen mewnbwn rheoli adeiladu ar ei gyfer

10. Caniatáu cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau llawn - yn amodol ar ofynion

(Gweler y ddolen yn yr adran Nodiadau)

Ydych chi'n cydsynio i'r cais am gymeradwyaeth rheoli adeiladu gyda chynlluniau llawn gael ei ganiatáu gyda gofynion? ◯ Ydw ◯ Nac Ydw

Ydych chi'n cydsynio i estyniad amser? ◯ Ydw ◯ Nac Ydw

Ystyr gofynion yw addasiadau i'r cynlluniau cymeradwy neu gyflwyno cynlluniau pellach, fel y'u pennir gan yr awdurdod rheoli adeiladu, y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r gwaith ddechrau



11. Gwaith Trydanol

A fydd y gwaith Trydanol yn cael ei wneud gan gontractwr sydd wedi'i gofrestru gyda chynllun Hunan-ardystio Rhan P?

◯ Bydd ◯ Na Fydd

12. Ffioedd yn Daladwy

Beth yw costau amcangyfrifedig y gwaith adeiladu (os yn berthnasol)

Math o Ffi	Tâl Net	TAW	Cyfanswm y Ffi	Pa ffi sy'n cael ei thalu wrth gyflwyno
Manylion y Ffi Cynllun				☐
Manylion y Ffi Arolygu				☐

Sylwer: Os mai dim ond y Ffi Cynllun sy'n cael ei thalu wrth gyflwyno, bydd y Syrfëwr Rheoli Adeiladu yn anfonebu am y Ffi Arolygu yn ystod yr ymweliad cyntaf â'r safle. Rhowch y manylion isod i sicrhau bod yr anfoneb yn cael ei rhoi i'r person a'r cyfeiriad cywir

Rhowch enw llawn (nid llythrennau cyntaf) a chyfeiriad llawn y person (o adrannau 1-4) sy'n gyfrifol am y ffi arolygu. Os caiff yr adran hon ei gadael yn wag, tybir mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol. Os oes angen gwneud newidiadau ar ôl anfonebu, bydd yna ffi weinyddol i'w thalu. (Os ydych chi'n talu'n llawn, nodwch 'ddim yn berthnasol' isod)

A yw'r gwaith er budd pobl ag anableddau yn unig, ac a ydych chi'n gwneud cais am eithriad rhag ffioedd? (Mae angen i hyn gael ei ategu gan dystysgrif/llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol - meddyg neu therapydd galwedigaethol)

I wneud taliad cerdyn dros y ffôn, cysylltwch â'n Harianwyr a nodwch fod y taliad ar gyfer cais Rheoli Adeiladu ar 01267 228686

13. Datganiad

Mae'r cais hwn am gymeradwyaeth rheoli adeiladu gyda chynlluniau llawn yn ymwneud â'r gwaith adeiladu ac ati, fel y disgrifir uchod. Caiff ei gyflwyno yn unol â Rheoliad 12(2)(b) ynghyd â'r tâl priodol.
Rwy'n deall y gall taliadau perthnasol pellach (megis ffioedd arolygu) fod yn daladwy gan berchennog yr adeilad (neu fel y diffinnir ym mhwynt 11), yn dilyn yr arolygiad cyntaf, a gynhaliwyd gan yr awdurdod rheoli adeiladu.

Rwyf fi / rydym ni'n gwneud cais am gymeradwyaeth rheoli adeiladu gyda chynlluniau llawn fel y disgrifir ar y ffurflen hon ac fel y manylir ar unrhyw ddogfennau atodol

Llofnod yr ymgeisydd a'r dyddiad

Rwyf fi, y cleient, yn cadarnhau fy mod yn cytuno i'r cais gael ei wneud a bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais yn gywir

Llofnod y cleient (lle nad yr ymgeisydd yw'r cleient) a'r dyddiad

LABC CYMRU



14. Dychwelyd y Cais wedi'i Gwblhau

Dychweler erbyn:
E-bost: rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk
Post: Tîm Rheoli Adeiladu, Cyngor Sir Caerfyrddin, Tŷ Parc-yr-hun, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, SA18 3FB Cysylltwch â'n tîm ar 01267 264044 os oes gennych unrhyw ymholiadau am ffioedd.

Mae gwneud cais am gymeradwyaeth rheoli adeiladu gyda chynlluniau llawn i hysbysu'r awdurdod rheoli adeiladu am waith adeiladu ac ati, wedi'i gyfyngu i fathau penodol o adeiladau. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd i gyd-fynd â'ch cais am gymeradwyaeth rheoli adeiladu gyda chynlluniau llawn, yn dibynnu ar y gwaith y bwriedir ei wneud. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y nodiadau a'r rhestr wirio sy'n atodedig. Ni ellir defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheoli adeiladu sy'n ymwneud â gwaith adeiladu risg uwch, cam o waith adeiladu risg uwch, nac â gwaith ar adeiladau risg uwch presennol.



Nodiadau

[Gwaith dylunio ac adeiladu: bodloni'r gofynion adeiladu | LLYW.CYMRU]
[Rhan 2B (deiliaid dyletswydd a chymhwysedd) y Rheoliadau hyn]

Gall rolau 1-4 isod orgyffwrdd ond rhaid eu nodi'n glir o hyd.

1. **Manylion yr ymgeisydd -** Y person sy'n cyflwyno'r cais rheoli adeiladu. Gall fod y cleient, adeiladwr, pensaer, neu asiant sy'n gweithredu ar ran y cleient.

2. **Manylion y cleient** - Y person neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu. Mae'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth.

3. **Manylion y prif gontractwr / Unig gontractwr -** Y contractwr sy'n rheoli'r cam adeiladu yn gyffredinol. Y person a benodwyd i **gynllunio, rheoli a chydlynu'r** cam adeiladu

4. **Manylion y prif ddylunydd / Unig ddylunydd neu ddylunydd arweiniol** - Sy'n gyfrifol am gynllunio, rheoli, a chydlynu'r gwaith dylunio. Mae'n sicrhau iechyd, diogelwch, a chydymffurfiaeth reoleiddiol wrth ddylunio.

5. **Lleoliad a Manylion y Cais**

   - **Cyfeiriad y Safle -** Cyfeiriad post llawn y lleoliad lle mae'r gwaith adeiladu i'w wneud, gan gynnwys y côd post.
     - Rhaid i hyn nodi'n glir union safle'r gwaith.
     - Ar gyfer safleoedd heb gyfeiriad post (e.e. lleiniau newydd), rhowch:
       - Rif y llain / enw'r safle
       - Y ffordd agosaf (neu'r côd post agosaf lle nad oes un yn bodoli)
       - Rhaid cyflwyno cynllun lleoliad gyda'r cais, sy'n dangos y safle wedi'i amlinellu mewn coch a digon o fanylion amgylchynol i allu adnabod y lleoliad.
   - **Nifer yr ystafelloedd gwely** - Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely a gynigir ym mhob annedd newydd.
   - **Ailgyflwyno** - Rhif cyfeirnod Rheoli Adeiladu ar gyfer unrhyw gais blaenorol sy'n ymwneud â'r un safle neu waith arfaethedig.
   - **Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio** - Rhif cyfeirnod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer y gwaith arfaethedig.

6. **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (fel y'i diwygiwyd)**- Mae hyn yn berthnasol i adeiladau annomestig (e.e. swyddfeydd, siopau) a rhannau cyffredin adeiladau preswyl (e.e. fflatiau). Nid yw'n berthnasol i anheddau preifat unigol.

7. **Adeiladau presennol** - Rhowch fanylion am ddefnydd presennol yr adeilad, y defnydd o bob llawr, ei uchder (mewn metrau), a chyfanswm nifer y lloriau ar ôl y gwaith arfaethedig (wedi'i gyfrifo yn unol â Rheoliadau Adeiladau Risg Uwch 2023). Dolenni defnyddiol : **Rheoliad 5**

8. **Gwaith Arfaethedig**

   - **Rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig** - Rhowch ddisgrifiad clir o'r gwaith arfaethedig, gan gynnwys math a maint y gwaith adeiladu (e.e. estyniad, addasu, newid, neu adeilad newydd).
   - **Manylion ychwanegol** - Nodwch ddefnydd presennol yr adeilad, y defnydd o bob llawr, ei uchder (mewn metrau), a chyfanswm nifer y lloriau ar ôl y gwaith arfaethedig (yn unol â Rheoliadau Adeiladau Risg Uwch 2023). Dolenni defnyddiol: **Rheoliad 5** - **H4 o Atodlen 1**



- **Dull o waredu dŵr budr** - Nodwch sut y bydd dŵr budr yn cael ei waredu (e.e. prif garthffos, tanc septig, gwaith trin).
- **Dull gwaredu dŵr wyneb** - Nodwch sut y bydd dŵr wyneb yn cael ei waredu (e.e. carthffos, ffos gerrig, cwrs dŵr, SuDS).
- **Dull cyflenwi dŵr** - Nodwch sut y bydd dŵr yn cael ei gyflenwi i'r adeilad (e.e. prif gyflenwad neu gyflenwad preifat).

9. **Dechrau**
   a) Nodwch y dyddiad y disgwylir i'r gwaith gyrraedd y cam y bernir ei fod wedi'i ddechrau o dan **Rheoliad 46B** (nid dim ond pan fydd y gwaith yn dechrau gyntaf ar y safle).
   b) Lle nad yw **Rheoliad 46B** (2) neu (3) yn gymwys, nodwch y rhannau o'r prosiect y mae'r cleient o'r farn bod angen mewnbwn Rheoli Adeiladu ar eu cyfer.

10. **Caniatáu cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau llawn - yn amodol ar ofynion**
    - **Cydsynio i'r cais gael ei ganiatáu gyda gofynion** - Nodwch a ydych yn cydsynio i'r cais gael ei ganiatáu gyda gofynion (amodau) y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy.
    - **Cydsynio i estyniad amser** - Cadarnhewch a ydych yn cydsynio i estyniad amser er mwyn penderfynu ar y cais

11. **Gwaith Trydanol** - Os yw'n berthnasol, nodwch a fydd y gwaithtrydanol yn cael ei wneud gan gontractwr sydd wedi'i gofrestru gyda chynllun hunan-ardystio Rhan P. **Dogfen Gymeradwy P**

12. **Ffioedd yn Daladwy** - Nodwch y ffioedd Rheoli Adeiladu perthnasol, gan gynnwys tâl cynllun a thâl arolygu, sy'n daladwy ar gyfer y cais hwn. Os nad ydych yn siŵr beth yw'r ffi, yna cysylltwch â Rheoli Adeiladu ar **01267 246044** neu rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk

13. **Datganiad** - Mae'r datganiad yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir a bod yr ymgeisydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y cleient. Mae'r cleient yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r cais ac yn deall ei gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Adeiladu. Gellir darparu llofnodion yn electronig.